Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust

# SWYDDOG DATBLYGU NATUR
# DISGRIFIAD SWYDD

**Lleoliad: Gweithio hybrid: Wedi ei seilio yn y swyddfa NEU gellir gweithio o adref ac o gyfleusterau swyddfa sydd ar gael ym Mangor/Aberduna**

**Yn atebol i'r: Rheolwr Rhaglen – Consortiwm Natur Gogledd Cymru**

## DIBEN CYFFREDINOL Y SWYDD

Bydd y Swyddog Datblygu'n rhan o dîm prosiect bach a bydd yn rhannu'r cyfrifoldeb am roi darlun cyfansawdd at ei gilydd o'r camau gweithredu a'r arian sy'n angenrheidiol er budd natur ledled rhanbarth Gogledd Cymru, a hefyd am helpu i adeiladu cynlluniau wedi eu costio a chyfrannu at y dasg o gyfateb y gofynion cyllido â ffynonellau ariannu cyhoeddus a phreifat posibl. Mae'r prosiect yn cefnogi ymgyrch gydweithredol i wella'r ddarpariaeth ar gyfer natur a chau bwlch cyllid yr amcangyfrifir ei fod yn ddegau o filiynau o bunnoedd bob blwyddyn.

Bydd tîm y prosiect yn gweithio gyda phobl ar draws yr holl sefydliadau perthnasol ac mewn mannau eraill, yn cynnwys cynrychiolwyr ffermwyr a pherchnogion tir.

## PRIF GYFRIFOLDEBAU

1. Ymgysylltu â phobl mewn sefydliadau perthnasol ac mewn mannau eraill i ddysgu am a dogfennu'r holl strategaethau, cynlluniau, rhaglenni, prosiectau, gwybodaeth waelodol ac uchelgeisiau'r chwaraewyr allweddol sy'n gweithio dros natur, yn cynnwys partneriaethau a mentrau wedi eu harwain gan y gymuned, ffermwyr a pherchnogion tir.

2. Cyfranogi yn y gwaith o ddadansoddi ac asesu'r wybodaeth a gesglir, gan helpu i adnabod blaenoriaethau a datblygu rhaglenni ar gyfer gwella natur.

3. Dogfennu gwybodaeth mewn profformâu a llenwi cronfa ddata ofodol.

4. Cefnogi cydweithwyr ac arwain agweddau o'r prosiect yn unol â chryfderau arbennig daliwr y swydd.

5. Gweithio gyda rheolwr y rhaglen i gefnogi agweddau eraill o fenter Gogledd Cymru sy'n berthnasol i ddiben swydd y Swyddog Datblygu.

Er mwyn i'r sefydliad weithio'n effeithiol efallai y bydd gofyn i chi helpu gyda meysydd eraill o waith ac, felly, dylech chi fod yn barod i wneud dyletswyddau eraill sy'n briodol i'r swydd, ac unrhyw ddyletswyddau rhesymol eraill sy'n ofynnol.

**Mae'r staff i gyd yn llysgenhadon ar gyfer y sefydliad, yn fewnol ac yn allanol, a disgwylir iddynt weithredu mewn ffordd broffesiynol bob amser. Mae gofyn iddyn nhw gadw at reolau, polisïau a gweithdrefnau sefydliadol fel y maent wedi eu nodi yn llawlyfr y staff, mabwysiadu arferion gweithio sy'n garedig i'r amgylchedd, gosod a chynnal safonau personol uchel o effeithiolrwydd a gofal y cwsmer a datblygu diwylliant 'gallaf wneud' ar sail perchnogaeth, menter, gwaith tîm a chyfnewid gwybodaeth.**

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust

**SWYDDOG DATBLYGU NATUR**
**MANYLION Y PERSON**

| | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| **Nodweddion Personol** | | |
| Trefnus | x | |
| Brwdfrydig a hyderus | x | |
| Chwaraewr tîm | x | |
| **Galluoedd allweddol** | | |
| Yn gallu casglu a dogfennu amrywiaeth eang o fformatau a phynciau gwybodaeth yn systematig. | x | |
| Yn gallu sefydlu perthnasoedd gwaith a darbwyllo amrywiaeth eang o bobl i ymgysylltu ag amcanion y prosiect a chyfrannu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u harbenigedd. | x | |
| Yn gallu galw a rheoli sesiynau sy'n cofnodi ac ystyried gwybodaeth ar y cyd, yn cynnwys wyneb yn wyneb ac ar-lein. | x | |
| Yn gallu meddwl yn feirniadol a gwneud synnwyr o ffynonellau gwybodaeth sy'n anghyflawn ac sydd o bosib yn gwrthgyferbynnu â'i gilydd. | x | |
| Y gallu i weithio'n annibynnol a hefyd ffynnu yn rhan o dîm. | x | |
| **Profiad** | | |
| Gweithio ar draws timau neu sefydliadau. | x | |
| Rhaglenni a phrosiectau. | | x |
| Gweithio o fewn y rhwydwaith o bobl a sefydliadau sy'n cyfranogi yn y gwaith o reoli cefn gwlad, ffermio a gofalu am fyd natur yng Ngogledd Cymru. | | x |
| **Gwybodaeth a Sgiliau** | | |
| Siaradwr Cymraeg rhugl (bydd angen i dîm y prosiect gynnwys o leiaf un siaradwr Cymraeg). | | x |
| Dealltwriaeth dda o ddatblygu prosiectau a'u costio. | x | |
| Dealltwriaeth deg o reoli cefn gwlad a chadwraeth natur. | x | |
| Y gallu i roi gwybodaeth mewn fformatau digidol, yn cynnwys cronfeydd data a GIS. | x | |
| Sgiliau cyfathrebu / rhyngbersonol da | x | |